Annwyl Gynghorydd,

Cau Ysgolion

Gobeithio y bydd yn bosib i chwi neilltuo ychydig o funudau i ddarllen ac ystyried y nodyn hwn.

Mae aelod blaenllaw o Blaid Cymru ar Gyngor Caerfyrddin yn ysgrifennu yn “Golwg” 6 Medi 2007 fod cynghorwyr y tu allan i’r “cabinet” bychan, dethol “…..*heb ddim pwer o gwbl*” ac hefyd “…*gyda…dim llais yn y Cyngor*.” Sonia ymhellach am “*ddiffyg democratiaeth*” system o’r fath.

Ymddengys fod y sefyllfa’n waeth yng Nghyngor Gwynedd. Ers dechrau trafod cau ysgolion (gawn ni osgoi termau crand) ofnid mai clic bychan o uwch swyddogion ac aelodau sy’n penderfynu yng Nghyngor Gwynedd gyda chynghorwyr, hyd yn oed o fewn y “bwrdd” ffurfiol, yn gorfod dilyn.

Mae llythyr y Cyng. Penri Jones yn “Golwg” 15 Tachwedd 2007 yn cadarnhau’r ofnau hyn. Fel arweinydd portfolio addysg dywed fod gweld y ddogfen (ar ei ffurf derfynol mae’n debyg) am y tro cyntaf yn “…*gymaint o sioc i mi ag i rieni a llywodraethwyr..”* Â yn ei flaen wedyn i ddatgan iddo geisio cael trafodaeth ar y ddogfen gyda *“…..swyddogion addysg……a grwp bychan o gynghorwyr”* (sic.) (sylwer nad yw’n cyfeirio o gwbl at aelodaeth gyfan y cabinet er mai nifer lled fychan ydynt i gyd). Mae’r neges yma’n gwbl glir , tybiwn. Fel hyn y mae Cyngor Gwynedd yn gweithio .

Y cwestiwn yw lle mae hyn yn gadael y 60 aelod arall o Gyngor Gwynedd sydd y tu allan hyd yn oed i’r ”bwrdd” ffurfiol? Yn fwy pwysig, lle mae’n gadael etholwyr y cynghorwyr hyn , sydd yn ôl pob tebyg heb wir lais ar y Cyngor , ar faterion pwysig fel cau ysgolion a allasai gael effaith fawr a pharhaol ar eu cymunedau? Yr ydym yn bendant fod pob un o’r cynghorwyr hyn yn ddiffuant ac am gynrychioli eu hardaloedd i’w llawn allu, llawer yn teithio cryn bellter yn rheolaidd e.e. o eithafion Llyn a De Meirionnydd, yr holl ffordd i Gaernarfon i “stampio” penderfyniadau sydd wedi’u cymryd eisioes.. Y broblem yw nad yw trefn a diwylliant glicaidd y Cyngor yn caniatau iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau.

Yn eironig, gallai sefyllfa cynghorwyr Plaid Cymru y tu allan i’r bwrdd neu hyd yn oed y tu allan i’r clic mewnol, fod yn waeth, gan fod y cynghorwyr hynny yn cael eu hatal rhag trafod yn gyhoeddus neu ddatgelu gwybodaeth o bwyllgorau caeëdig , e.e. cyfarfod y grwp ym Mhorthmadog ar 12 Tachwedd 2007, a llythyr “gagio” y deëllir i gynghorwyr y Blaid ei dderbyn ddechrau Medi 2007 yn eu rhybuddio i beidio â mynychu trafodaethau cyhoeddus ar fater cau ysgolion..

Mewn cyfnod o wneud torriadau , a lle mae’r Cyngor i’w weld â mwy o ddiddordeb yng ngogledd ddwyrain y sir ar draul yr ardaloedd gwledig, mae’r diffyg llais democrataidd yma i’w weld yn arbennig o galed ar yr ardaloedd gwledig ac ar dde a gorllewin y sir. Yma wrth gwrs mae’r rhan fwyaf o’r ysgolion sydd i gau, (a’r nifer mwyaf tebygol o gau rhywdro wedi ffederaleiddio ffurfiol) yma mae’r cymunedau â’r economiau bregus, yr her o gyflwyno gwasanaeth, a’r newidiadau mwyaf yng nghanrannau’r siaradwyr Cymraeg. Os mai tro’r ysgolion yw hi yn awr, beth fydd nesaf? Gyda’r pwyslais ar ddatblygu ardal

Afon Menai, ymddengys fod gan y reolwyr y Cyngor fwy o ddiddordeb yn ffyniant Ynys Môn na rhannau helaeth o'i diriogaeth ei hunan.

Gofynnwn i chwi felly, er lles ardaloedd helaeth o Wynedd, i wrthwynebu ym mhob ffordd, y cynllun anaeddfed yma. Dylid mynnu astudiaeth lawn o'r ardrawiad ar iaith, cymdeithas ac economi'r ardaloedd yr effeithid arnynt cyn derbyn y ddogfen, hyd yn oed fel dogfen ymgynghorol, heb son am gyflwyno ffigyrau ystyrlon ar wir gost, arbedion, gwerth addysgol a chynaladwyedd y cynllun . Mae cynnig rhyw fath o astudiaeth ieithyddol y flwyddyn nesaf felly yn rhy hwyr os yw'r Cyngor yn "derbyn" yr adroddiad. Mae'r clic rheolaethol yn ceisio gwerthu "cath mewn cwd" i gynghorwyr.

Mae "derbyn" dogfen i bwrpas ymgynghori gyfystyr â dweud mai dyma yw strategaeth y Cyngor os na chaiff ein perswadio'n wahanol. Bydd y rhagdybiaeth bob tro o blaid cynnwys y ddogfen sydd wedi'i "derbyn". Mae'r clic rheolaethol felly yn gofyn i gynghorwyr cyffredin dderbyn polisi heb unrhyw wybodaeth am rai o'i brif effeithiau ar eu hetholaethau. Byddai cymryd penderfyniad felly yn anghyfrifol a pheryglus, heb son am fod, fwyaf tebyg, yn gamweinyddiad.

Mae gwrthwynebu hwn yn gyfle da i gynghorwyr cyffredin Gwynedd fynnu bod ganddynt lais, nid yn unig ar y mater pwysig yma, ond ar gyfer materion pwysig y dyfodol hefyd. Dyma'r lle i wneud safiad.

Efallai y bydd Cymru gyfan yn elwa drwy i gynghorwyr Gwynedd arwain a mynnu democratiaeth a'r hawl sylfaenol i gynrychioli eu hetholwyr.

Diolch yn fawr i chwi am ddarllen ac ystyried cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir,

Ar ran "Achubwch Llanystumdwy".